# CYNLLUN PENSIWN AC YSWIRIANT PRIFYSGOL BANGOR BUPAS

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY




# NEWYDDION AM EICH CYNLLUN 2024

# NEWYDDION AM EICH CYNLLUN 2024

Tudalen


03. Croeso

04. Newyddion pensiwn

07. Sgamiau pensiwn

08. Cynllun Pensiwn ac Yswiriant Prifysgol Bangor hyd at 31 Gorffennaf 2023

10. Cynllunio at eich ymddeoliad

12. Ffynonellau gwybodaeth bellach

13. Unrhyw beth i'w ddweud wrthym?

14. Ymddiriedolwyr ac Ymgynghorwyr

## Croeso i NEWYDDION Y CYNLLUN 2024

Croeso i’r cylchlythyr blynyddol sy'n rhoi datblygiadau diweddaraf Cynllun Pensiwn ac Yswiriant Prifysgol Bangor i chi yn ogystal â gwybodaeth arall am bensiynau a allai fod o ddiddordeb i chi.

Paratowyd yr adroddiad hwn fel rhan o ymrwymiad parhaus yr ymddiriedolwyr i hysbysu aelodau'n llawn am ddatblygiadau o fewn y cynllun a'i gyllid cyffredinol. Fel bob amser, gobeithiwn y bydd cylchlythyr eleni yn ddefnyddiol i chi, a chroesawn eich sylwadau a'ch awgrymiadau ar gyfer rhifynnau'r dyfodol, yn ogystal â'ch adborth ar eich profiad o'r ymddiriedolwyr a'u cynghorwyr yn fwy cyffredinol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf bu rhai newidiadau i fwrdd yr ymddiriedolwyr a cheir manylion llawn hynny ar dudalen 14. Ar hyn o bryd, mae gennym swydd wag i ymddiriedolwr a enwebir gan yr aelodau. Os ydych yn credu y gallai fod gennych ddiddordeb gwneud cais am y swydd, cysylltwch â'r Rheolwr Pensiynau (mae'r manylion cyswllt ar ddiwedd y cylchlythyr hwn).

Penododd y brifysgol Capital Cranfield Pensions Trustees Limited ('CCPTL') fel ymddiriedolwr annibynnol i fwrdd yr ymddiriedolwyr ym mis Ionawr 2021 a fi yw’r ymddiriedolwr sy’n cynrychioli CCPTL ers hynny. Yn dilyn ymddiswyddiad Michael Wilson o’r bwrdd ymddiriedolwyr ym mis Mawrth 2023, gofynnodd y brifysgol i mi gamu i swydd y cadeirydd ac roeddwn yn hapus i dderbyn, gyda chefnogaeth fy nghyd ymddiriedolwyr. Edrychaf ymlaen at barhau i gefnogi’r cynllun a bwrdd yr ymddiriedolwyr yn fy swydd fel cadeirydd yr ymddiriedolwyr.

Mae’r cylchlythyr hwn hefyd yn cynnwys diweddariad ar ddatblygiad ariannol y cynllun, gan gynnwys dyfynbrisiau o’r adroddiad blynyddol a chyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023. Mae prisiad actiwaraidd ffurfiol o’r cynllun ar 31 Gorffennaf 2023 ar y gweill ar hyn o bryd a bydd canlyniadau’r prisiad hwn yn cael eu cyfleu i aelodau mewn datganiad ariannu cryno maes o law.

Fel y gwyddoch, mae’n siŵr, mae economi’r Deyrnas Unedig a’r economi byd-eang yn parhau i fod mewn cyflwr o ansefydlogrwydd sylweddol. Tra bod y cefndir economaidd presennol yn heriol, hoffai’r ymddiriedolwyr eich sicrhau eu bod hwy a’r brifysgol yn parhau i fonitro’r effaith ar y cynllun yn agos iawn er mwyn sicrhau bod y strategaethau a’r mesurau lleihau risg sydd wedi eu rhoi ar waith yn parhau i fod yn briodol. Maent yn monitro ac yn cymryd cyngor ar fuddsoddiadau'r cynllun yn barhaus i sicrhau bod y cynllun a'i aelodau yn cael eu diogelu yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Mark Condron

**Cadeirydd Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn ac Yswiriant Prifysgol Bangor**

# Newyddion pensiwn

## Gwiriwch eich Pensiwn Gwladol

Ym mis Ebrill 2016, gwnaeth y llywodraeth newidiadau pwysig i'r Pensiwn Gwladol. Ar hyn o bryd mae'r Pensiwn Gwladol un haen llawn yn **£203.85 yr wythnos** ond mae faint fydd pob unigolyn yn ei gael yn dibynnu ar eu cofnod Yswiriant Gwladol. I gael Pensiwn Gwladol llawn, bydd rhaid i chi fod wedi gwneud 35 mlynedd o gyfraniadau. Os credwch na fyddwch wedi cyfrannu digon, gallwch dalu'n ychwanegol.

Ni chaiff eich Pensiwn Gwladol ei dalu i chi yn awtomatig, bydd rhaid i chi ei hawlio. Ni fydd ychwaith yn cael ei ôl-ddyddio os byddwch yn ei hawlio'n hwyr.

I gael rhagamcan o'r swm y gallech ei gael, gallwch gofrestru gyda Government Gateway yn **www.gov.uk/check-state-pension** lle darperir gwybodaeth bellach.

## Newid yn yr Oedran Pensiwn Gwladol

Mae'r oedran y daw unigolion yn gymwys i ddechrau hawlio Pensiwn Gwladol yn codi fesul cam i adlewyrchu'r ffaith bod pobl yn byw'n hwy. Yr Oedran Pensiwn Gwladol ar hyn o bryd yw 66 i ddynion a merched, ond bydd yn codi i 67 a 68 yn y dyfodol.

Gallwch weld pryd byddwch yn gymwys i gael Pensiwn Gwladol yn **www.gov.uk/state-pension-age**

## Newid yn yr isafswm oedran pensiwn arferol

A oeddech yn gwybod y bydd yr isafswm oedran pensiwn arferol hefyd yn codi o 55 i 57 o 6 Ebrill 2028? Bydd hyn yn golygu mai'r cynharaf y gallwch ymddeol o'r cynllun fydd 57 oed, oni bai bod gennych oedran ymddeol gwarchodedig.



# Newyddion pensiwn

## Rhaglen Dangosfwrdd Pensiynau

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi bod yn gweithio ar gynlluniau i greu dangosfyrddau pensiynau ers peth amser. Bydd gan lawer o bobl fuddion pensiwn a chynilion gwahanol mewn cynlluniau lluosog felly'r nod yw bod aelodau'n gallu gweld eu holl fuddion a chynilion mewn un lle.

Er y bydd y dangosfyrddau'n cael eu cyflenwi gan wahanol ddarparwyr, bydd rhaid i'r holl gynlluniau pensiwn gysylltu ag 'ecosystem' y dangosfyrddau. Bydd cynlluniau'n cysylltu â dangosfyrddau ac yn darparu gwybodaeth am bensiynau o ddyddiad cau cynlluniau penodol yn dibynnu ar faint a math y cynllun pensiwn.

Mae'r rhaglen ddangosfyrddau pensiynau yn gynllun sylweddol a chymhleth ac mae'r Adran Waith a Phensiynau yn parhau i weithio gyda'r diwydiant pensiynau i lunio'r fframwaith. Ym mis Mawrth 2023, cyhoeddodd yr Adran Waith a Phensiynau y bydd oedi yn yr amserlen wreiddiol a gynlluniwyd ac ni fydd y dyddiad cau i gysylltu cynlluniau pensiwn â'r dangosfyrddau tan 31 Hydref 2026. Rhoddir rhagor o wybodaeth i aelodau os caiff Cynllun Pensiwn ac Yswiriant Prifysgol Bangor ei effeithio.

Pensiwn Gwladol ewch i **www.pensionsdashboardsprogramme.org.uk** i gael gwybod mwy

# Newyddion pensiwn

## Diweddariadau am Gyllideb 2023

Fel byddwch wedi clywed efallai, roedd cyllideb 2023 yn cynnwys nifer o newidiadau i bolisi'r llywodraeth sy'n effeithio ar bensiynau.

### Newidiadau i'r Lwfans Oes

Lwfans oes yw cyfanswm y cynilion pensiwn y gallwch eu gwneud yn ystod eich oes a all gael gostyngiad treth. Ers 2020, mae'r lwfans oes wedi ei rewi ar £1.073m, ond mae'r llywodraeth bellach yn bwriadu ei ddileu, felly nid oes unrhyw gyfyngiad ar faint o gynilion pensiwn y gallwch eu casglu dros eich oes. Gan fod rhaid gwneud hyn trwy'r gyfraith, bydd y lwfans oes yn dal i fodoli tan 6 Ebrill 2024, ond os byddwch yn cymryd eich buddion cyn hynny a bod gwerth cyfalaf eich cynilion dros £1.073m, ni fyddwch yn gorfod talu treth



### Newidiadau i'r Lwfans Blynyddol

Y lwfans blynyddol yw cyfanswm y cynilion y gallwch eu gwneud mewn cynllun pensiwn bob blwyddyn sy'n cael gostyngiad treth. £40,000 oedd y lwfans blynyddol i fwyafrif yr aelodau ond, o 6 Ebrill 2023 ymlaen, mae wedi codi i £60,000 y flwyddyn. Dan rai amgylchiadau, gall terfyn gwahanol fod ar waith – os ydych yn ennill cyflog uchel iawn neu os ydych wedi cael arian o gronfa bensiwn mewn modd hyblyg, tra'n parhau i gyfrannu at gynllun

### Cap ar y lwmp swm di-dreth

Yn flaenorol, gallech gymryd hyd at 25% o werth eich buddion fel lwmp swm di-dreth. Mae'r llywodraeth bellach wedi cyfyngu'r gostyngiad treth sydd ar gael i gap o 25% o'r lwfans oes a oedd yn bodoli cyn 6 Ebrill 2023, sef £268,275 (oni bai bod gennych gynllun diogelu'r lwfans oes eisoes, ac os felly ni fydd y cap newydd yn effeithio arnoch).

**Rhagor o wybodaeth**

**www.gov.uk/government/publications/abolition-of-lifetime-allowance-and-increases-to-pension-tax-limits**

# Sgamiau Pensiwn

Mae nifer y sgamiau pensiwn wedi parhau'n uchel dros y flwyddyn ddiwethaf, yn enwedig mewn perthynas â throsglwyddiadau allan o gynlluniau pensiwn â buddion wedi eu diffinio. Rydym yn eich atgoffa i fod yn wyliadwrus iawn o fygythiad parhaus sgamiau pensiwn.

Rydym wedi rhoi sawl cam ar waith i helpu eich diogelu rhag sgamiau pensiwn.

Rydym wedi ymrwymo i addewid y Rheoleiddiwr Pensiynau i frwydro yn erbyn sgamiau pensiwn ac wedi mireinio ein prosesau i gyd-fynd ag egwyddorion cod ymarfer da'r Pension Scam Industry Group.

Os dymunwch gymryd trosglwyddiad allan o Gynllun Pensiwn ac Yswiriant Prifysgol Bangor, gofynnir i chi, ym mhob achos ac eithrio rhai cyfyngedig, i alw'r tîm gwasanaeth amddiffyn rhag twyll yn XPS. Bydd y tîm hwn yn asesu eich achos yn annibynnol am arwyddion o sgâm cyn i drosglwyddiad gael ei wneud.

Roedd rheoliadau trosglwyddo a gyflwynwyd ym mis Tachwedd 2021 yn amlinellu'r camau sy'n rhaid i gynlluniau pensiwn eu cymryd er mwyn asesu sgâm posib cyn trosglwyddo pensiwn. O dan y rheoliadau hyn, mae gennym bellach y grym i atal trosglwyddiad rhag digwydd os credwn mai sgâm pensiwn ydyw.

Mae'r prosesau sydd gennym ar waith i asesu sgamiau pensiynau eisoes yn cynnwys y rhan fwyaf o'r camau gweithredu sy'n ofynnol gan y rheoliadau newydd ac rydym wedi gwneud y newidiadau bach sydd eu hangen i sicrhau bod ein prosesau'n cydymffurfio â'r rhain.

Mae canllawiau penodol gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a'r Rheoleiddiwr Pensiynau i helpu i'ch diogelu rhag sgâm pensiynau ar gael yn:

[www.fca.org.uk/scamsmart/how-avoid-pension-scams](http://www.fca.org.uk/scamsmart/how-avoid-pension-scams)
[www.fca.org.uk/consumers/pension-transfer-defined-benefit](http://www.fca.org.uk/consumers/pension-transfer-defined-benefit)
[www.thepensionsregulator.gov.uk/en/pension-scams](http://www.thepensionsregulator.gov.uk/en/pension-scams)

Byddem yn eich annog i fod yn arbennig o wyliadwrus os bydd rhywun yn cysylltu â chi'n ddiwahoddiad i roi cyngor i chi ar drosglwyddo eich buddion o Gynllun Pensiwn ac Yswiriant Prifysgol Bangor i gynllun amgen.



# Cynllun Pensiwn ac Yswiriant Prifysgol Bangor hyd at 31 Gorffennaf 2023

## Twf y Gronfa

**Y gronfa hyd at 1 Awst 2022**
**£149,871,329**

**Cynnydd Net**
**(Incwm namyn gwariant)**
**-£1,182,784**

**Cyfraniadau: £3,500,807**
**Incwm arall: £102,924**

**Namyn**

**Buddion a dalwyd: £4,131,335**
**Gwariant arall: £655,180**

**Cynnydd yng ngwerth buddsoddiadau ar y farchnad**
**-£32,032,730**

**Y gronfa hyd at 31 Gorffennaf 2023**
[illegible]

Cymerwyd y ffigurau hyn o'r cynllun, sydd ar gael ar gais.

Mae'r ymddiriedolwyr wedi cwblhau adolygiad o strategaeth fuddsoddi'r cynllun ac wedi derbyn cyngor ac wedi penderfynu gwneud rhai newidiadau i fuddsoddiadau'r cynllun. Rhoddwyd y newidiadau ar waith yn 2023 a cheir manylion y strategaeth newydd yn y Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi sydd i'w weld yn **www.bangor.ac.uk/finance-services/staff/bupas**

## Dyraniad buddsoddiad hyd at 31 Gorffennaf

| | |
|---|---|
| 41.7% | Buddsoddiadau ar sail rhwymedigaethau |
| 5.6% | Gwarantau â Chymorth Asedau |
| 1.0% | Prynu a Chynnal Bondiau |
| 8.9% | Credyd Aml-sector |
| 14.0% | Credyd Preifat |
| 5.7% | Eiddo |
| [illegible] | [illegible] |

## Adenillion dros y flwyddyn yn gorffen

| | Adenillion ar y Gronfa | Adenillion Meincnod/ Targed |
|---|---|---|
| Allianz - Credyd | 3.4% | 3.5% |
| Blackrock - Eiddo | -17.3% | -17.4% |
| Abrdn - Credyd Preifat | -1.0% | 4.0% |

*Lansiwyd cronfa Octopus Renewable Infrastructure* yn 2023, felly nid oes gwybodaeth perfformiad ar gael.

*Mae portffolio Schroders (buddsoddi a bennir yn ôl atebolrwydd, prynu a chynnal credyd, gwarantau â chymorth asedau ac ecwiti synthetig)* wedi ei gynllunio i berfformio yn unol â chyfran o rwymedigaethau gwirioneddol y cynllun.

# Cynllun Pensiwn ac Yswiriant

## Sefyllfa ariannu

# r hyd at 31 Gorffennaf 2023

Unwaith y flwyddyn, byddwn yn cael diweddariad o sefyllfa gyllido Cynllun Pensiwn ac Yswiriant Prifysgol Bangor gan actiwari'r cynllun. Roedd y diweddariad diwethaf o'r fath a gawsom ar 1 Awst 2022 yn dangos bod lefel ariannu Cynllun Pensiwn ac Yswiriant Prifysgol Bangor yn 101%. Mae'r cynllun ar hyn o bryd yn cynnal prisiad actiwaraidd, sy'n digwydd bob tair blynedd, ar 31 Gorffennaf 2023. Nid yw canlyniadau'r prisiad hwn ar gael eto, fodd bynnag bydd y wybodaeth hon yn cael ei darparu i chi mewn Datganiad Ariannu Cryno yn

| 2022 | |
|---|---|
| £149.4m | Asedau |
| £148.2m | Rhwymedigaethau |
| 101% | Lefel cyllido |

## Aelodaeth

**Cyfanswm Aelodaeth**
hyd at 31 Gorffennaf 2023

**1,798**

| 2023 | 2022 | |
|---|---|---|
| 382 | 364 | Pob aelod sy'n cyfrannu |
| 797 | 782 | Aelodau a adawodd y gwasanaeth ac nad ydynt yn cael pensiwn eto |

## Pob aelod sy'n cyfrannu

| 364 | Pob aelod sy'n cyfrannu hyd at 31 Gorffennaf 2022 |
|---|---|
| + 59 | Aelodau newydd a ymunodd yn ystod y flwyddyn |
| - 40 | Staff a adawodd |

# Cynllunio at eich ymddeoliad

Mae eich datganiad blynyddol buddion neu ddyfynbris ymddeoliad yn cynnwys rhagamcan o'ch buddion pan fyddwch yn ymddeol a gwybodaeth i'ch helpu i ddeall y dewisiadau sydd ar gael i chi pan fyddwch yn ymddeol. Mae'n bwysig dechrau cynllunio at eich ymddeoliad mewn da bryd cyn meddwl am gymryd eich buddion. Mae hyn yn golygu, os bydd rhaid i chi wneud unrhyw newidiadau, bydd gennych ddigon o amser i'w gwneud.

**Dyma ganllaw defnyddiol i'ch helpu.**

## Hyd at 10 mlynedd cyn ymddeol

### Eich costau byw

Cyfrifwch faint y byddwch ei angen/eisiau i fyw arno yn ystod eich ymddeoliad. Caniatewch ar gyfer costau ychwanegol, megis biliau gwasanaethau uwch a mwy o wyliau mewn blwyddyn o bosib. Peidiwch ag anghofio tynnu pethau fel taliadau morgais (os byddwch wedi talu eich morgais erbyn i chi ymddeol) a theithio yn ôl a blaen i'r gwaith.

### Cyfrifwch y symiau

Adiwch eich pens[illegible]t ei gilydd i weld a fydd eich inc[illegible] gyfer eich gwariant dis[illegible]ch efallai na fydd eich budd[illegible]adol yn daladwy tan ar ôl i chi ymddeol o Gynllun Pensiwn ac Yswiriant Prifysgol Bangor.



### Dim digon?

# Hyd at 5 mlynedd cyn ymddeol

## Pethau i’w gwirio

- Ewch ar ôl unrhyw hen gynlluniau pensiwn o swyddi blaenorol neu drwy bolisïau unigol.
- Gofynnwch am ddyfynbrisiau cyfredol ar gyfer eich holl bensiynau, yn cynnwys rhagolwg Pensiwn Gwladol.
- A allwch gynyddu eich cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol ymhellach?

Dechreuwch feddwl am y math o fuddion sydd ei hangen arnoch: pensiwn safonol a swm arian di-dreth x3 neu a fyddai'n well gennych gael yr uchafswm arian parod di-dreth a phensiwn is?

# 6 mis cyn ymddeol

## Gwirio am y tro olaf

- Os na fyddwch wedi gwneud hynny'n barod, ystyriwch fynd i weld cynghorwr ariannol annibynnol i drafod cael y budd mwyaf o'ch holl bensiynau.
- Cofiwch sicrhau eich bod yn gwybod pryd y telir eich pensiwn cyntaf a'ch swm arian parod di-dreth.

# Ymddeoliad

## Mwynhewch eich ymdd



# Ffynonellau gwybodaeth bellach

Yn ogystal â'r wybodaeth sydd ar gael trwy Gynllun Pensiwn ac Yswiriant Prifysgol Bangor, mae nifer o adnoddau eraill ar gael i'r cyhoedd i baratoi at eich ymddeoliad.

## MOT ariannol canol oed

Mae gan y llywodraeth wefan i roi mynediad i bobl at ganllawiau proffesiynol, annibynnol am ddim i helpu gyda chynllunio pensiwn, dewisiadau gwaith ac aros yn iach. Dyma'r wefan **www.yourpension.gov.uk**

## Money Helper

Mae Money Helper yn dod â chymorth a gwasanaethau tri darparwr cefnogaeth ariannol a gefnogir gan y llywodraeth ynghyd: y Money Advice Service, y Pensions Advisory Service a Pensions Wise.

Trwy Money Helper gallwch gael cymorth diduedd am ddim ar gyfer eich holl ddewisiadau ariannol a phensiwn. Gellir cael mynediad at Money Helper yn: **www.moneyhelper.org.uk/cy/pensions-and-retirement**

## Gwefan y llywodraeth

Mae gwefan y llywodraeth yn rhoi gwybodaeth ar bynciau fel y Pensiwn Gwladol, cyfraith pensiynau a pharatoi at ymddeol. Ewch i **www.gov.uk** a chlicio ar 'Working, jobs and pensions'.



# Unrhyw beth i'w ddweud wrthym?

Mae'n bwysig eich bod yn dweud wrthym os oes unrhyw rai o'ch manylion yn newid. Ni fyddwn yn gallu talu eich buddion os na fydd y manylion cywir amdanoch gennym.

## Newid manylion sylfaenol

Os bydd unrhyw rai o'ch manylion sylfaenol yn newid, anfonwch e-bost at **pensiynau@bangor.ac.uk** gyda'r wybodaeth newydd fel bod eich cofnod yn cael ei ddiweddaru ar y system weinyddu. Y mathau mwyaf cyffredin o ddiweddariadau a dderbyniwn yw newidiadau cyfeiriad pan fydd pobl yn symud tŷ neu newidiadau i enwau yn dilyn newid mewn statws priodasol.

## Ffurflen fynegi dymuniad

Mae'r ffurflen hon yn rhoi gwybod i ni pwy yr hoffech dderbyn unrhyw fuddion arian parod a fyddai'n daladwy pe baech yn marw. Dylech ystyried diweddaru eich ffurflen bob tro y bydd eich amgylchiadau personol yn newid a phob 3 blynedd o leiaf. Gallwch ofyn am gopi o'r ffurflen hon gan weinyddwyr y cynllun neu'r Rheolwr Pensiynau, gan ddefnyddio'r manylion a ddarperir ar ddiwedd y cylchlythyr hwn.

## Ffurflen Gofrestru Dibynnydd Posib

Os nad ydych yn briod neu'n rhan o bartneriaeth sifil gofrestredig, dylech chithau hefyd lenwi ffurflen cofrestru dibynnydd posib. Bydd hyn yn rhoi gwybod i ni am unrhyw un sy'n ddibynnol arnoch yn ariannol, a allai o bosib gael yr hyn sy'n cyfateb i bensiwn gŵr/gwraig /partner sifil pe baech yn marw. Gofynnwch am gopi o’r ffurflen hon trwy gysylltu â’r Rheolwr Pensiynau, gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a ddarperir ar ddiwedd y cylchlythyr hwn.

Llun yn cynnwys LEGO, tegan

Disgrifiad wedi ei gynhyrchu'n awtomatig

# Ymddiriedolwyr ac Ymgynghorwyr

## Bwrdd Ymddiriedolwyr

**Mark Condron (Cadeirydd)**
**Ymddiriedolwr a Enwebwyd gan y Cyflogwr**

**Marc Jones**
**Ymddiriedolwr a Enwebwyd gan y Cyflogwr**

**Lauren Roberts**
**Ymddiriedolwr a Enwebwyd gan y Cyflogwr**

**Peter Hughes**
**Ymddiriedolwr a Enwebwyd gan yr Aelodau**

**Ros James**
**Ymddiriedolwr a Enwebwyd gan yr Aelodau**

**Nicola Kirby**
**Ymddiriedolwr a Enwebwyd gan yr Aelodau**

Gadawodd dau o’n hymddiriedolwyr, Carl Shipton a Siân Peris Owen, fwrdd yr ymddiriedolwyr yn ystod 2023. Hoffem ddiolch i'r ddau am eu cyfraniad sylweddol at y bwrdd yn ystod eu cyfnod yn y swydd.

Rydym yn croesawu Lauren Roberts a Dylan James i’r bwrdd ymddiriedolwyr fel ymddiriedolwyr a enwebwyd gan y cyflogwr. Mae un swydd ymddiriedolwr a enwebir gan yr aelodau yn dal yn wag; os oes gennych ddiddordeb mewn gwneud cais i fod yn ymddiriedolwr, cysylltwch â'r Swyddog Pensiynau am ragor o wybodaeth.

## Ymgynghorwyr Ymddiriedolwyr

**Rheolwr Pensiynau ac Ysgrifennydd i'r Ymddiriedolwyr**
**Eluned Hughes, Prifysgol Bangor**

**Gweinyddwyr Allanol**
**XPS Administration**

**Actwari’r Cynllun**
**Sarah Keighley**, XPS Pensions Group

**Ymgynghorwyr Buddsoddi**
**Isio**

Cynghorwyr Cyfreithiol

DLA Piper



# CYNLLUN PENSIWN AC YSWIRIANT PRIFYSGOL BANGOR BUPAS

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

**Gweinyddwyr y Cynllun**
**XPS Administration**
PO Box 562
Middlesbrough
TS1 9JA

Ffôn: 0113 244 0200
E-bost: bangor.university@xpsgroup.com

**Rheolwr Pensiynau**
**Ms Eluned Hughes**
Prifysgol Bangor
Ffordd y Coleg
Bangor
LL57 2DG

Ffôn: 01248 383 261
E-bost: pensiynau@bangor.ac.uk